




Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



# Y Polisi Aflonyddu a Bwlio Myfyrwyr

## **Y Polisi Aflonyddu a Bwlio**

### **Cynnwys**

1. Cyflwyniad
2. Diben
3. Cwmpas
4. Y berthynas a'r rhyngwyneb â pholisïau a gweithdrefnau eraill
5. Diffiniadau
6. Cyfrifoldebau
7. Cymorth
8. Troseddau Cyfreithiol a phrosesau troseddol
9. Gweithdrefnau
10. Datrysiaid Anffurfiol
11. Penderfyniad Ffurfiol
12. Paramedrau cyfrinachedd
13. Monitro
14. Goblygiadau o ran adnoddau
15. Aseiad effaith
16. Rheoli fersiynau dogfennau

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn cynnwys gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch aflonyddu a bwlio. Mae'r polisi yn rhan o ymrwymiad cryf y Brifysgol i gyfle cyfartal a darparu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol a chefnogol lle gall pob myfyriwr gyflawni ei botensial personol a bod yn rhydd o ragfarn a gwahaniaethu. Mae'r Brifysgol yn croesawu amrywiaeth ddiwylliannol ei chymuned.
- 1.2 Ni fydd y Brifysgol yn goddef aflonyddu a / neu fwlio un unigolyn neu grŵp yng nghymuned y Brifysgol gan un arall. Rhaid i bob unigolyn gael ei drin ag urddas a pharch.
- 1.3 Mae'r polisi yn mabwysiadu arfer da yn y sector (e.e. dogfen Universities UK, *Guidance for Higher Education Institutions: How to Handle Alleged Student Misconduct Which May Also Constitute a Criminal Offence*, ac ymgyrch menywod yr NUS, 'Dim goddefgarwch o aflonyddu rhywiol').

## 2. Diben

- 2.1 Nod y polisi yw sicrhau y cynhelir y gweithdrefnau a ddefnyddir i ymdrin ag unrhyw honiadau o aflonyddu a bwlio mewn modd teg a thryloyw, a bod y Brifysgol yn arfer dyletswydd gofal briodol, yn defnyddio egwyddorion cyfiawnder naturiol, yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau cyfartal a hawliau dynol, ac yn cymryd pob cam rhesymol i'w hatal rhag digwydd eto.

## 3. Cwmpas

- 3.1 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r holl fyfyrwyr a gofrestrwyd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- 3.2 Mae'r polisi'n ymwneud ag aflonyddu a bwlio ar safle'r Brifysgol ac oddi arno (gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol) lle mae'r dioddefwr honedig yn fyfyrwr neu eraill sy'n ymweld neu sy'n astudio yn y Brifysgol ac aflonyddu a bwlio honedig sy'n digwydd yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (e.e. yn ystod teithiau maes).
- 3.3 Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan sefydliadau allanol sy'n darparu cyfleoedd lleoliad a secondiad bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith mewn perthynas ag aflonyddu a bwlio. Bydd unrhyw fyfyrwr ar leoliad yr aflonyddir arno neu a gaiff ei fwlio yn cael y gefnogaeth briodol gan y Brifysgol.
- 3.4 Mae gan y Brifysgol y gallu i gymryd camau disgyblu yn erbyn myfyrwyr o'i dewis ei hun os nad yw'r myfyriwr yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol.

## 4. Y berthynas a'r rhyngwyneb â pholisiau a gweithdrefnau eraill

- 4.1 Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â nifer o strategaethau, polisiau a gweithdrefnau eraill yn y Brifysgol, yn arbennig:
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
  - Y Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd)
  - Technoleg a Systemau Gwybodaeth: Polisi Defnydd Derbyniol
  - Y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
  - Y Polisi Iechyd a Diogelwch
  - Y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr
  - Y Polisi Diogelu
- 4.2 Cyn bod unrhyw weithdrefnau ffurfiol yn cychwyn, bydd y Brifysgol yn ystyried pa weithdrefn(au) sydd fwyaf priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r honiad.
- 4.3 Bydd gwneud addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol ynghylch y broses ar gyfer myfyrwyr sydd ag anabledau neu broblemau iechyd eraill.

## 5. Diffiniadau

- 5.1 Yn Neddf Cydraddoldeb 2010 hwn diffinnir aflonyddu yn y modd hwn:

Ymddygiad annymunol sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig berthnasol, sydd â'r nod neu'r diben o dreisio urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i'r unigolyn hwnnw.

Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.<sup>1</sup>

- 5.2 Gellir disgrifio bwlio yn y modd hwn:

Ymddygiad sarhaus, bygythiol, maleisus neu sarhaus, cam-drin neu gamddefnyddio pŵer drwy ddulliau sy'n tanseilio, bychanu, difrïo neu'n anafu'r derbynydd.

- 5.3 Gall y bwlio neu'r aflonyddu fod gan unigolyn yn erbyn unigolyn neu gall gynnwys grwpiau o bobl. Gall fod yn amlwg neu yn annhegwch; gall cam-drin pŵer fod yn amlwg neu ymhlyg. Nid yw bwlio ac aflonyddu o reidrwydd wyneb yn wyneb. Gallant hefyd ddigwydd drwy amrywiol ffyrdd eraill o gyfathrebu (e.e. e-bost, ffôn, cyfathrebu ysgrifenedig a'r cyfryngau cymdeithasol).
- 5.4 Gall myfyrwyr gwyno am ymddygiad sy'n sarhaus hyd yn oed os nid yw wedi ei gyfeirio atynt (e.e. pan fydd amgylchedd sarhaus wedi ei greu o ganlyniad i ymddygiad tuag at y rhai sydd â nodwedd warchodedig berthnasol). Nid oes angen chwaith fod gan yr achwynwyr hefyd y nodwedd warchodedig berthnasol eu hunain er mwyn gwneud cwyn (e.e. pan gânt eu bwlio neu yr aflonyddir arnynt pan dybir ar gam fod ganddynt nodwedd warchodedig neu pan fyddant yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchodedig).

---

<sup>1</sup> Mae aflonyddu'n berthnasol i bob nodwedd warchodedig ac eithrio beichiogrwydd a mamolaeth lle gellir ystyried unrhyw driniaeth anffafriol yn wahaniaethu, a phiodas a phartneriaeth sifil lle nad oes tystiolaeth sylweddol bod angen un.

5.5 Rhoddir rhestr o enghreifftiau o aflonyddu a bwlio yn yr Atodiad sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

## **6. Cyfrifoldebau**

- Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am weithredu a monitro effeithiolrwydd y polisi hwn.
- Goruchwylir honiadau ffurfiol yn erbyn aelod o staff neu gontractwyr ar ran y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.
- Goruchwylir honiadau ffurfiol yn erbyn myfyriwr neu ymwelwyr academaidd ar ran y Cyngor gan y PIG Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr).
- Mae'r holl staff a myfyrwyr yn gyfrifol am feithrin diwylliant cynhwysol o urddas a pharch ar gyfer pob aelod o gymuned y brifysgol ac am lynu wrth egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Mae'r holl fyfyrwyr yn gyfrifol am roi gwybod am unrhyw achosion o aflonyddu a bwlio a ddaw i'w sylw.

## **7. Cymorth**

7.1 Mae lles myfyrwyr yn hollbwysig i'r Brifysgol. Mae unrhyw honiad o aflonyddu a bwlio yn debygol o gael effaith andwyol ar bawb dan sylw.

7.2 Bydd y Brifysgol yn sicrhau y caiff pawb sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath fanteisio ar gefnogaeth, gwybodaeth, cyngor a chymorth gydol y broses, o'r adeg y rhoddir gwybod yn gyntaf hyd yr adeg y bydd y prosesau perthnasol wedi eu cwblhau. Lle bo'n briodol bydd y Brifysgol yn cyfeirio at wasanaethau cymorth allanol. Gall cymorth ddod ar amrywiol ffurfiau, yn dibynnu ar beth sydd ei angen ac sy'n briodol ym mhob achos unigol.

7.3 Caiff pob parti sydd ynghlwm wrth y digwyddiad ei drin yn deg ac ni wneir unrhyw ragdybiaethau am unrhyw un o'r partiön dan sylw hyd nes bydd y prosesau perthnasol wedi dod i ben.

7.4 Caiff myfyrwyr yr effeithir arnynt gan aflonyddu a/neu fwlio ac y mae arnynt angen cymorth rwydd hynt i fanteisio ar gymorth o'r fath, heb i unrhyw bryder yr aflonyddir arnynt ymhellach oherwydd eu bod wedi gwneud cwyn.

7.5 Bydd modd i bob myfyriwr dan sylw fanteisio ar gymorth drwy Adran Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol. Bydd modd i'r staff sy'n cymryd rhan gael cymorth drwy'r Adran Adnoddau Dynol.

## **8. Troseddau cyfreithiol a phrosesau troseddol**

8.1 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gall aflonyddu fod yn drosedd gyfreithiol. Os cychwynnir camau troseddol allanol mewn perthynas â honiad o aflonyddu a/neu fwlio, gall fod angen addasu'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn. Trafodir unrhyw addasiadau fel arfer gyda'r naill barti a'r llall.

8.2 Amlinellir yr egwyddorion a ddilynir pryd y gallai aflonyddu fod yn drosedd gyfreithiol yn y Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd).

## **9. Gweithdrefnau**

- 9.1 Yn aml mae achosion o aflonyddu a bwlio yn amlwg ond weithiau gall pobl deimlo'n ansicr ac efallai yr hoffent drafod yn anffurfiol yr hyn sydd wedi digwydd a thrafod y dewisiadau gwahanol sydd ar agor iddynt, pa gymorth y gellid ei gynnig, ac a fyddai dull anffurfiol neu ffurfiol yn fwy priodol.
- 9.2 Os bydd bwlio a / neu aflonyddu, yn gyffredinol mae'n bwysig gweithredu cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion yn gyflym, gan sicrhau cyn lleied o effaith ag y bo modd, ac atal hyn rhag digwydd eto. Ni oddefir gormesu nac anwybyddu person am ei fod wedi gwneud cwyn.
- 9.3 Byddai'n ddefnyddiol pe bai myfyrwyr sy'n gwneud honiad o fwlio a / neu aflonyddu yn cadw dyddiadur o unrhyw ddigwyddiadau, sy'n cynnwys manylion megis y dyddiad a'r amser y digwyddodd yr achos o fwlio a / neu aflonyddu, copiâu o unrhyw dystiolaeth (e-byst, cyfryngau cymdeithasol dystiolaeth, lluniau), ac enwau unrhyw dystion.

## **10. Datrysiaid anffurfiol**

- 10.1 Yn dibynnu yn fawr iawn, wrth gwrs, ar ddifrifoldeb yr aflonyddu a'r bwlio, cyn i unrhyw weithdrefnau ffurfiol ddechrau, gall fod yn briodol mynd ati mewn modd anffurfiol yn gyntaf. Pan fydd yr aflonyddu neu'r bwlio yn ddifrifol, y disgwyl yw bydd materion yn mynd yn eu blaen i gam ffurfiol ar unwaith, yn dilyn prosesau disgyblu myfyrwyr fel y bo'n briodol.
- 10.2 Cynigia'r Brifysgol gymorth i fyfyrwyr yn rhan o unrhyw ddulliau anffurfiol am ei bod yn aml yn anodd i unrhyw fyfyrwyr yr effeithir arnynt gan aflonyddu neu fwlio fynd i'r afael â hyn ar eu pen eu hunain. Mater i'r achwynydd yn ôl ei ddisgresiwn ei hun fydd penderfynu a ddylid defnyddio llwybr anffurfiol yn gyntaf ai peidio.
- 10.3 Gofynnir i fyfyrwyr sy'n poeni am aflonyddu a/neu fwlio gysylltu ag Adran Gwasanaethau'r Myfyrwyr.

## **11. Penderfyniad ffurfiol**

- 11.1 Os bydd ymdrechion i ddatrys materion yn anffurfiol yn aflwyddiannus neu os na fydd ymagwedd anffurfiol yn briodol oherwydd difrifoldeb yr honiad o aflonyddu a bwlio, mae gweithdrefnau ffurfiol ar gael. Fel arfer, defnyddir Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd) fel y bo'n briodol.

## **12. Paramedrau cyfrinachedd**

- 12.1 Bydd y Brifysgol yn ymwybodol o'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a rennir am aflonyddu (honedig) a/neu fwlio.

## **13. Monitro**

- 13.1. Monitrir achosion o fwlio ac aflonyddu yn ogystal ag effeithiolrwydd y polisi yn flynyddol.

#### 14. Goblygiadau o ran adnoddau

Goblygiad	Manylion
Cyllid	<i>Hyfforddiant ar gyfer cronfa o staff i ddarparu cymorth i staff a myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt gan achosion o aflonyddu a bwlio. Trefnu deunyddiau datblygu a hyfforddi staff mewn perthynas ag aflonyddu a bwlio.</i>
Staff	<i>Ni ragwelir unrhyw adnoddau ychwanegol.</i>
Asedau	<i>Nid nodwyd unrhyw gostau asedau.</i>
Partneriaid	<i>Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio'r polisi hwn ar draws y grŵp sector deuel.</i>
Amserlenni	<i>Ar ôl ei gymeradwyo caiff y polisi ei weithredu ar unwaith. Caiff y polisi ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n barhaus â deddfwriaeth berthnasol.</i>
Arweinyddiaeth	<i>PIGC (Profiadau Myfyrwyr)</i>

#### 15. Asesiad effaith

Goblygiad	Ystyriwyd yr effaith (Do/Naddo)	Effaith a Nodwyd
Cyfreithiol		<i>Bydd y polisi yn sicrhau cydymffurfiaid â'r ddeddfwriaeth berthnasol megis Ddeddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth defnyddwyr.</i>
Cyfraniad i'r Cynllun Strategol		<i>Mae'r polisi yn cyd-fynd â gwerthoedd a fynegir yn y Cynllun Strategol.</i>
Dadansoddi risg		<i>Bydd cydymffurfio â'r polisi yn lliniaru'r risg o gydymffurfio ag aflonyddu a bwlio.</i>
Cydraddoldeb		<i>Bydd y polisi yn sicrhau y glynir wrth ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.</i>
Yr Iaith Gymraeg		<i>Mae'r polisi yn cyd-fynd ag egwyddorion a fynegwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg.</i>
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd		<i>Ni nodwyd un.</i>
Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata		<i>Bydd y polisi ar gael i staff a myfyrwyr drwy'r MyDay.</i>

**Awdur polisi:** Dr Mirjam Plantinga, PIGC (Profiadau Myfyrwyr)

**Rheoli fersiynau dogfennau**

Rhif y fersiwn	Rheswm dros newid	Awdur	Dyddiad y newid
0.1	Polisi drafft	MP	26.10.16
0.2	Adborth yn dilyn PPA	MP	10.11.16



